



Bwletin i Rieni - Hydref 2014

Dyddiadau Pwysig

27.10.14 – 31.10.14

Gwyliau Hanner Tymor.

03.11.14

Yr ysgol ar agor yn dilyn hanner tymor.

18.11.14

Cyfarfod Rhieni Bl. 8

02.12.14

Cyfarfod Rhieni Bl. 7

19.12.14 -

Diwrnod olaf yn yr ysgol cyn gwyliau'r Nadolig

Croeso!

Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Croeso arbennig i ddisgyblion sy'n cychwyn yn Ysgol Dyffryn Ogwen o'r newydd ac i'w rhieni. Dymunwn flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn i bawb.

Llwyddiant Arholiadau Disgyblion

Roedd hi'n bleser unwaith eto cydnabod llwyddiant ein disgyblion. 'Roedd y canrannau Llwyddiant Lefel A ar bob lefel yn galonogol iawn gyda mwyafrif helaeth wedi llwyddo i sicrhau cwrs o'u dewis cyntaf mewn Prifysgol. Llwyddodd canran uchel iawn o'r flwyddyn i ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan sicrhau mynediad i Addysg Uwch yn sgil y llwyddiant hwn. Mae'r llwyddiant yma yn adlewyrchiad o waith caled y disgyblion a'r staff i gyd, yn ogystal â chefnogaeth rhieni. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bob un ohonynt.

Cafwyd canlyniadau TGAU da iawn eto eleni – gyda 96% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 A*-C. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd ysgolion Gwynedd. 'Rydym yn arbennig o falch hefyd nad yw yr un disgybl yn gadael yr ysgol yn ddigymhwyster.



Cafwyd y canlyniadau TGAU gorau gan Elin Cain, Cai Dickinson a Nic Johns.

Cafwyd y canlyniadau Lefel A gorau gan Adam Hughes, Cara Thomas a Ben Roberts.

Cyfarfod Gwobrwyo Disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 17eg, yn neuadd yr ysgol. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda gwaith ysgol.

Ein gŵr gwadd eleni oedd Mr Dewi R. Jones - cyn Bennaeth Addysg Cyngor Gwynedd. Ein gwsteion oedd Mrs Beryl Orwig - Ysgoloriaeth Dafydd Orwig, y Cynghorydd Godfrey Northam - Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda, a'r Cynghorydd Mrs Mair Leverett, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandygai.

Yr oedd yn braf iawn hefyd croesawu penaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Wedi'r cyfan y mae llwyddiant y disgyblion yn gymaint o waith yr ysgolion cynradd ag o'n gwaith ninnau yn yr uwchradd.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r noddwyr isod am eu cyfraniadau ariannol tuag at y Cyfarfod Gwobrwyo eleni:- Jones & Whitehead, Trydanwyr, Tregarth - DU Construction Cyf, Adeiladwyr, Gaerwen – Welsh Slate, Chwarel y Penrhyn, Bethesda – Tony Davies, Plymwr, Llanllechid.

ENILLWYR GWOBRAU 2013-2014

Gwobrau Presenoldeb 100%

Reece Davies	Nel Rhys
Cai Williams	Morgan Davies
Nia George	Joshua Hughes
Sion Jones	Elen Owen
Dylan Robertson	Ieuan Hughes
Mari Jones	Cadi Rhys
Arwel Davies	Manon Hughes
Ben Jones	Morgan Jones
Huw Owen	



Gwobrau Blwyddyn 7 :-

Ella Baker	Lowri Ford	Meilir Griffiths	Beca Nia
Thalia Lichtenstein	Cai Rees Williams	Mia Richards	Ceri Williams

Gwobrau Pynciol:-

Cymraeg

(Noddyd gan Mr & Mrs J H Evans, Tegfryn, Rhiwlas)

Saesneg

Ffrangeg

Cerdd

Mathemateg

Gwyddoniaeth CA3

Gwyddoniaeth CA4

Gwyddoniaeth CA5

Hanes

Daearyddiaeth

Astudiaethau Crefyddol

Addysg Gorfforol

Celf

Lletygarwch

Datblygiad Plantyn

Dylunio a Thechnoleg (Gwrthiannol)

Technoleg Gwybodaeth

Alys Haf	Llinos Roberts
Kara Bullock	Adam Hughes
Elin Cain	Meilir Griffiths
Jac Peall	Mari Williams
Luke Crow Ben Jones	Math Owen
Owain Morgan	Martha Evans
Cai Dickinson	Rhiannon Llwyd
Cara Thomas	Ben Roberts
Luke Crowe	Bethan Hughes
Nicholas Johns	Jasmine Jones
Sara Evans	Llinos Evans
Llinos Evans	Gethin Williams
Joshua Williams	Dion Jones
Rhys Evans	Sara Evans
Lisa Francis	Llinos Evans
Jade Roberts	Joshua Williams
Morgan Davies	Cadi Roberts

Gwobr Cynnwydd

(Noddyd gan deulu'r diweddar Wyn Davies, Bronydd Isaf, Llanllechid)

Dewi Moses-Roberts Beca Bullock

Gwobrau Cyngor Cymuned Llandygai

Ymdrech Bl. 7

Megan Williams

Dafydd Williams

Ymdrech Bl. 8

Stephanie Owen

Alex Welling

Ymdrech Bl. 9

Chloe Davies

Tomos Gwyn Jones

Ymdrech Bl. 10

Daniel Evans

Lois Owen

Mabolgampwr y Flwyddyn – Blwyddyn 7

Beca Nia Caio Hughes Cai Williams

Mabolgampwr y Flwyddyn – Blwyddyn 8

Sophie Ellis Esme Crowe Ben Williams

Mabolgampwr y Flwyddyn – Blwyddyn 9

Elin Owen David Florence

Mabolgampwr y Flwyddyn – Blwyddyn 10

Manon Hughes Harri Phillips

Gwobr Tîm y Flwyddyn/

Tîm Rygbi bechgyn dan 13.

Cai Griffiths	Joseph Bullock
Pedr Owen	Joshua Hughes
Shaun Roberts	Ben Williams
Mathew Buchanan	Gruffydd Roberts
Sion Jones	Sion Davies
Kieran Briggs	Jorden Roberts
Kieron Bullock	Osian Sanderson
Dafydd Williams	Joshua Dignam
Caio Hughes	Morgan Davies
Jac Oliver	Rhys Puw



Perfformiad Gorau T.G.A.U.

Cai Dickinson Elin Cain Nicholas Johns

Perfformiad Gorau Lefel A

Adam Hughes Ben Roberts Cara Thomas

Tarian Carwyn Thomas

Sophie Ellis

Tlws Athletwr y Flwyddyn

Sion Bullock



Gwobr Goffa Frank Rhys Jones Hannah Cook

Blwyddyn a hanner yn ôl roedd Hannah yn byw yn Banbury yn Swydd Rhydychen ac yn Saesnes uniaith heb unrhyw gysylltiad â Chymru. Erbyn hyn, ac ar ôl bod yn y Ganolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog, mae hi'n rhugl ei Chymraeg, ac yn cymryd rhan lawn yn holl weithgareddau'r ysgol. Dipyn o gamp!



Ysgoloriaeth

Cyngor Cymuned Bethesda Cai Jones Steffan Owain Steffan Owen Kyle Thomas

Mae'r pedwar ar hyn o bryd yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Menai a fydd yn arwain at grefft benodol yn y dyfodol fel saer, plymiwr neu drydanwr.



Ysgoloriaeth Dafydd Orwig

Adam Hughes
Cara Thomas

Mae'r ddau bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau ym Mhrifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau i chi.


Staff

Croeso cynnes i'r staff newydd sydd wedi ymuno â ni'r tymor hwn:-

- Miss Delyth Hughes – Athrawes Mathemateg

Dyddiaduron

Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7-13 wedi derbyn dyddiadur personol er mwyn trefnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r dyddiadur hefyd yn fodd pwysig o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni. Byddwn yn defnyddio'r dyddiadur i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:-



- Gwaith Cartref
- Adroddiadau ac Asesiadau
- Monitro a thracio cynnydd yn erbyn targedau
- Cyfweiliadau Tiwtor
- Llythyrau i Rieni
- Arholiadau/Asesiadau dan Reolaeth
- Presenoldeb

Gofynnwn yn garedig i chi drafod cynnwys y dyddiadur gyda'ch plentyn a'i arwyddo'n wythnosol.

Gwyliau yn ystod y tymor ysgol



Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau newydd sydd yn rhoi'r hawl i ysgolion roi cosb ariannol o £120 i rieni lle mae eu plant wedi colli 10 diwrnod neu fwy heb gytundeb gyda'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Gyda chefnogaeth rhieni a'r staff, mae'r ysgol wedi gweithio'n galed iawn i wella ffigyrau presenoldeb, ac mae gwobrau yn cael eu rhoi i'r dosbarth a'r unigolion gyda'r presenoldeb gorau. Un peth sy'n effeithio ar y ffigyrau presenoldeb yw gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Fel pob ysgol arall yng Ngwynedd, mae'r llywodraethwyr wedi penderfynu caniatáu hyd at 5 diwrnod yn unig o wyliau teuluol ym mlynnyddoedd 7-9, ond **dim un diwrnod** ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Gofynnir am gefnogaeth rhieni i beidio trefnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol.

Prydlondeb

Mae disgwyl i bawb fod yn yr ysgol erbyn 8:45yb er mwyn rhoi dechrau trefnus i'r diwrnod. Gofynnwn am gydweithrediad rhieni gyda'r mater yma, yn enwedig ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. **Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn y bore, neu sy'n hwyr ar gyfer eu gwersi yn cael eu cadw i mewn amser cinio ac yna ar ôl ysgol.**



Absenoldeb Disgyblion

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol gofynnwn yn garedig i chi gysylltu ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn.

1. Cysylltwch â'r ysgol, rhwng 8:30 a 9:00, ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol: Ffônio 01248 600291.
2. Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn rhwng 8:30 a 9:00 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda neges tekst i'r rhiant.
3. Gofynnir i chi nodi rheswm yr absenoldeb yn nyddiadur eich plentyn.

Diolch am eich cydweithrediad.

Clwb Gwaith Cartref



Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor bob dydd Llun i ddydd Iau o 3:20 hyd at 4:20 mewn ystafell gyfrifiadurol.

Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae croeso i ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 fynychu'r Clwb.

Cinio Ysgol am Ddim / Grant Gwisg Ysgol



'Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, e.e. mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgyblion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.

Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol. Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor. Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau 01286 682689.

Gadael Tir yr Ysgol

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynnyddoedd 7-11 adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl boreol nac amser cinio. Y prif bryder sydd gennym yw am iechyd a diogelwch, a hynny am ddau brif reswm:

1. Pe bai tân yn digwydd yn yr ysgol amser cinio, er enghraifft, ni fyddai gennym unrhyw wybodaeth am eich plentyn a ddylai fod yn yr ysgol.
2. Pe bai eich plentyn yn gadael tir yr ysgol heb ganiatâd ac yn cael damwain, hoffwn wneud yn glir i chwi fel rhieni nad oes gan yr ysgol unrhyw gyfrifoldeb drostynt.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn trafod gyda'ch plentyn y peryglon. Dim ond disgyblion gyda chaniatâd rhieni a gyda thocyn cinio sy'n cael gadael tir yr ysgol amser cinio yn unig.

Wythnos Sgiliau

Cynhaliwyd wythnos sgiliau traws-ysgol ddechrau mis Hydref. Yr oedd rhaglen bwrpasol a diddorol wedi ei threfnu ar gyfer yr holl flynyddoedd.

Bu disgyblion blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu am ddeuddydd o Gwrs Croeso – y diwrnod cyntaf yn aros dros nos yn Rhyd Ddu a'r gwaith caled o gerdded yr Aran a'r ail yn adeiladu lloches ym Mharc Meurig gyda'r pwyslais ar weithio fel tim.

Daeth pawb adref yn flinedig ond wedi mwynhau – yn adnabod ei gilydd yn well ac yn teimlo yn rhan go iawn o Ysgol Dyffryn Ogwen – Croeso mawr i chi!

Gan fod blwyddyn 7 yn Rhyd Ddu manteisiwyd ar y cyfle i roi profiadau gwahanol i weddill yr ysgol, gan ganolbwyntio ar hybu'r sgiliau. Dyma oedd arlwy'r wythnos:-

- Blwyddyn 7 – Rhyd Ddu, gweithgareddau Indonesia a chreu ffilm.
- Blwyddyn 8 – Gweithgareddau Rhifedd a Llythrennedd, datrys problemau, diwylliant Tsieina, ymweliad ag Amgueddfa Gwynedd a diwrnod dinasyddiaeth gan ganolbwyntio ar gyflenwad dŵr ar draws y byd.
- Blwyddyn 9 – Gweithgareddau Gwrth-Fwlio, Cymru'n Cofio, yn sôn am y Rhyfel Byd Cyntaf, ymweliad â'r Ysgwrn (cartref Hedd Wyn) a chreu ffilm am Ioan Doyle.
- Blwyddyn 10 – Sesiwn ar sgiliau trosglwyddadwy gan Gyrfa Cymru, gweithdai ar y Cynulliad, Y Parc Cenedlaethol a sgiliau astudio. Paratoi ar gyfer gweithgaredd Menter y Bac a sesiynau ffitrwydd, sesiynau 'Hawl i Holi' gyda chynghorwyr lleol.
- Blwyddyn 11 – Mynychu cynhadledd Gyrfaedd yn Llandudno, gweithdy sgiliau astudio a ffug-gyfweliadau, ymchwiliad unigol y Bac a sesiynau ffitrwydd.



Mae'r disgyblion wedi datblygu llu o sgiliau gwerthfawr a fydd yn eu gwneud yn well dysgwyr ac yn eu paratoi i gyfrannu'n llawn i'w cymunedau yn y dyfodol.

Llwyddo'n Lleol



Llongyfarchiadau i'r tîm o 9 disgybl o flwyddyn 10 am ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth 'C'mon Cymuned' a gynhaliwyd gan Llwyddo'n Lleol yng Ngwynedd. Yr oedd yn rhaid i'r tîm greu syniad busnes i'r gymuned leol, ac er nad oedd amodau'r gystadleuaeth yn mynnu hynny, defnyddiodd y criw eu sgiliau cyfrifiadurol i wneud ffilm a chyflwyniad i werthu eu syniad. Cawsant adborth rhagorol gan y beirniaid, a oedd yn nodi ansawdd uchel y cais. Mae'r criw eisoes wedi defnyddio'r wobwr ariannol o £1,000 i brynu adnoddau i sefydlu eu busnes. Byddant hefyd yn mynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth ar lefel gogledd Cymru.


Sgwad Sgwennu



Ddydd Sul, Medi 14eg, mynychodd Esme Crowe, blwyddyn 9, Sgwad Sgwennu yn Nhŷ Newydd, sef cartref David Lloyd George, yn Llanymstumdwy. Y Bardd Sian Northey oedd yn llywio'r gweithdy sef awdures gyda chyfrwl o farddoniaeth ar restr fer Llyfr y Flwyddyn eleni. Drysau oedd thema'r diwrnod. Cafodd ddiwrnod gwerth chweil.

Adran Dylunio a Thechnoleg

Bu Ysgol Dyffryn Ogwen yn ffodus i dderbyn ymweliad gan dri o ddarlithwyr Adran Beirianneg, Prifysgol De Cymru. Cynhaliwyd dau weithdy llwyddiannus gyda disgyblion blwyddyn 11 yn ogystal â myfyrwyr ein chweched dosbarth ar y cyd â myfyrwyr o Ysgol Brynrefail. Gwelwyd gwaith ar sawl agwedd ddiddorol o fyd peirianneg a chafwyd cyfle i ddatrys problemau drwy adeiladu pont o bapur a gwelld yfed yn ogystal â gweld effaith gwres ar beli chwaraeon.



Adran Addysg Gorfforol

Canlyniadau gemau diweddar:-

Rygbi Dan 16

Ysgol Syr Hugh Owen 19 – 19 Ysgol Dyffryn Ogwen

Rygbi Dan 14

Ysgol Dyffryn Ogwen 59 – 5 Ysgol Syr Hugh Owen

Rygbi Dan 14

Ysgol Dyffryn Ogwen 34 – 12 Friars – Ceisiadau gan:- Mathew Buchanan x 5, Ben Williams, Gruff Roberts x 4, Kieren Briggs x 2, Caio Hughes x 3. Da iawn hogia!



Pêl-rwyd

Colli bu hanes tîm pêl-rwyd blwyddyn 10 yn ddiweddar yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen a hynny mewn gêm agos iawn gyda'r sgôr terfynol yn 5-4. Llwyddodd Jade Roberts i sgorio nifer o'r goliau ond cafodd Syr Hugh eu pumed gôl yn yr ugain eiliad olaf. Roedd yn berfformiad da iawn gan enethod Dyffryn Ogwen!



Llongyfarchiadau i Manon Hughes, blwyddyn 11, sydd wedi ei dewis i gynrychioli Eryri yng ngharfan Pêl-rwyd dan 16. Bydd Manon yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhyng-sirol Cymru yn ystod y flwyddyn.